Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog.

Cofnodion cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, GAERWEN ar Nos Fawrth, 23ain EBRILL 2019.

1 Presennol: Cynghorwraig Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd)
Cynghorwyr Miss Linda Jones, Mr Raymond Evans,
Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones,
Mr John Pritchard, a Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

2 Ymddiheuriadau:

Cynghorwyr Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr Ian Owen & Mr Einion P Williams. Hefyd Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

3 CROESO & DIOLCHIADAU.

3.1 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 DATGAN DIDDORDEB.

4.1 Nid oedd neb wedi datgan diddordeb personol mewn unrhyw eitem busnes y Cyngor.

5 CYWIRO & DERBYN COFNODION.

6.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain Fawrth 2019 yn gywir. (DH/CJ).

6.2 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod brys y Cyngor yn ymwneud a materion cynllunio a gynhaliwyd ar 16eg Ebrill 2019 yn gywir. (DH/CJ).

7 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

7.1 **Sedd Gwag** – dywedodd y Clerc fod y sedd gwag wedi ei hysbysebu yn y drefn arferol ac nid oedd wedi derbyn unrhyw diddordeb. **Nodwyd fod y broses o gyf-ethol aelod newydd yn agored i'r Cyngor**.

7.2 **Llwybr Rhif 33** – roedd y Clerc am siarad gyda Mr Arwel Evans o'r Cyngor Sir a gofyn iddo ymweld a'r safle pan fydd yn gyfleus.

Arwyddo.....

7.3 **Giat Cae Chwarae Mawr** – roedd y Clerc am anfon llythyr i atgoffa'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt ystyried gosod llinellau gwyn a'r Lon Groes tu allan mynediad y Cae Chwarae.

7.4 **Lon Llangaffo** – roedd y Clerc am atgoffa a dwyn sylw'r Adran Briffyrdd fod angen datrys gordyfiant ar bolyn/ffens sydd wedi siglo dan bwysau eiddew ochr isa Capel Berea ac ail-lleoli arwydd 40mya tuag at cyfeiriad Llangaffo.

7.5 **Postyn Gol & Graffiti** – dywedodd Cynghorydd Ian Owen fod y gwaith sydd angen mewn llaw.

7.6 **Lles Cae Chwarae (Clwb Pel Droed)** – y Clerc am gysylltu gyda'r Adran Eiddo yn gofyn iddynt am ymateb swyddogol o'r sefyllfa diweddaraf.

7.7 **Cynnal & Cadw Gwyneb Safle Maes Chwarae – disgwyl am ail bris cyn symud ymlaen.**

7.8.1 **Offer Seasaw** – wedi derbyn amcancyfrif o'r gwaith a symud ymlaen cyn gynted a phosib.

7.8.2 **Arolygiad Misol** – gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ar gyfer darparu rhestr er mwyn cynnal arolygiad misol o holl offerynau y caeau chwarae er budd lles diogelwch ac yswiriant. Dywedodd Cyng Cynrig Jones y bydd yn fodlon ymgymeryd y gwaith arolygu'r offer.

7.9 **Lamp Stryd Gardd y Mileniwm** – y Clerc i ddwyn sylw nad oedd y lamp yn gweithio ac fod angen sylw.

7.10 **Adroddiad Gor Yrru Stryd y Capel** – y Clerc am ofyn i'r Cyngor Sir os oedd posib trefnu astudiaeth newydd o'r safle.

7.11 **Cofrestr Asedau y Cyngor** – roedd y rhestr wedi ei drosglwyddo i law y Clerc ar gyfer yr Archwiliad Blynyddol

7.12 **Stad Rhos Wen – Arwydd ' No Through Road' -** angen gofyn i'r Cyngor Sir ystyried arwydd mwy

7.13 **Wal Cae Chwarae Mawr** – gofynwyd drafodaeth ar y mater yn y cyfarfod nesaf.

7.14 **Cysgodfan gyferbyn y Gofeb –** derbyniwyd adroddiad oddiwrth Cyng Linda Jones fod graffiti anweddus wedi paentio ar y cysgodfan gyferbyn y Gofeb a gofyn i'r Clerc wneud trefniadau i ddileu hwn cyn gynted a phosib.

Arwyddo.....

8 <u>MATERION CYLLID</u>.

8.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 28/03/2019 – cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Mawrth 2019 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

9 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

9.1 Cais Cynllunio – Addasu & Ehangu yn Arwel, Ffordd Caergybi, Gaerwen (HHP/2019/95) – **DIM SYLWADAU AR Y CYNLLUN DATBLYGU.**

10 CAIS CYNLLUNIO MAES PARCIO CYFFORDD 7 (A55) GAERWEN (FPL/2018/30) – Gorchymyn Traffig Dros Dro.

10.1 Dywedodd y Cynghorydd Sirol fod y cynllun ar ddal yn disgwyl cyllid oddiwrth Llywodraeth Cymru ac oherwydd datblygiadau ynghylch a Wylfa Newydd ac felly roedd derbyn y gorchymyn traffig dros dro yn cychwyn ar y 7fed Mai hyd at 14eg Mehefin 2019 ar gyfer gwaith lledu ffordd, creu mynediad cerbydol newydd a gwaith adlinio y ffos yn annisgwyl. Bydd yn gwneud ymholiadau ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF -28ain MAI 2019.

11.1 Clowyd y cyfarfod am 7:550yh.

Arwyddo.....CADEIRYDD.....Dyddiad.